

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 12 Gorffennaf, 2021

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 15 Gorffennaf, 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 22 Gorffennaf, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 23 Gorffennaf 2021.

Presennol: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Ieuan Williams

(10:00 y. .b. tan 11:00 y. b.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2021 fel rhai cywir.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Panel Rhiantu Corfforaethol Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2021.

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddarau am y cyfnod o Fedi, 2021 tan Ebrill, 2022 fel y'i chyflwynwyd.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Cyfrifon Terfynol Drafft 2020/21 a defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r prif ddatganiadau ariannol (heb eu harchwilio) ar gyfer 2020/21. • Nodi'r sefyllfa o ran y balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chymeradwyo creu'r cronfeydd wrth gefn a nodir

	<p>yn Atodiad 4 yr adroddiad yn gwneud cyfanswm o £5,181,646.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r sefyllfa o ran balansau ysgolion. • Cymeradwyo cynyddu isafswm Balans y Gronfa Gyffredinol i £9m. Adolygir y swm eto wrth osod cyllideb refeniw 2022/23. • Cymeradwyo creu Cronfeydd Gwasanaeth gwerth cyfanswm o £1.376m yn unol â Thabl 3, Atodiad 1 yr adroddiad. • Awdurdodi mewn egwyddor, defnyddio hyd at £3.471m (£1.217m o falans y Gronfa Gyffredinol a £2.254m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig nad ymrwymwyd) i gyllido prosiectau penodol sydd wedi'u cynllunio i gwrdd â'r risgiau a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r holl brosiectau newydd cyn iddynt gychwyn.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	I benderfynu ar lefel a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr fel adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2020/21.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	I gydymffurfio â gofyn statudol

DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Na. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyngor Llawn

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Newid i'r Cyfansoddiad: Hawliau Dirprwyol - Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Buddion Cymunedol Anstatudol Adroddiad gan y Prif Wweithredwr
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Argymhell bod y Cyngor Llawn fel Awdurdod Lleol, Awdurdod Cynllunio Lleol ac Awdurdod Priffyrdd Lleol yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn ôl y diffiniad yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol. • Argymhell bod y Cyngor Llawn yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â chyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiadau sydd angen Gorchymyn Datblygu Arbennig (e.e. Rheoli Ffiniau) o dan Adran 59 (3) yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. • Bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo awdurdod dros negodi'r holl fuddion cymunedol anstatudol a phob penderfyniad sy'n

	<p>berthnasol i drafodaethau o'r fath, yn gysylltiedig â, neu'n deillio o ddatblygiad a ystyrir yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) i'r Dirprwy Brif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Argymhell bod adran 3.5.3 yn y Cyfansoddiad yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dirprwyaethau uchod.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn hwyluso cyfranogiad a chyfraniad y Cyngor i geisiadau DNS
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes o ran 3. Na o ran 1, 2 a 4 sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Trawsnewid Sianeli Digidol CSYM Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Trawsnewid
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a bwrw ymlaen yn unol â hynny.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn cymeradwyo prosiect trawsnewid sianelau digidol a gwariant cysylltiedig
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes